Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Rhif 70 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn GAEAF 2000

## Ffair Lyfrau Gyntaf y Gymdeithas



*Mr John Roberts Williams yn trafod cyfrol Dictionarium Duplex John Davies Mallwyd gyda'r Golygydd*

Ar ddydd Sadwrn 30 Medi cynhaliwyd Ffair gyntaf y Gymdeithas yng Nghanolfan Bro Tegid y Bala. Dyma'r Ffair Lyfrau gyntaf i'w chynnal yn y Bala er gwerthu Llyfrgell y Methodistiaid yn ôl yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Daeth un ar bymtheg o stondinwyr yno a mynychodd rhai cannoedd o'r cyhoedd. Bu prynu brwd iawn, a digon o drafod llyfrau yn gyffredinol. Daethant o bell ac agos, rhai mor bell â Chaerdydd, a hyd yn oed Llundain. Datganodd llyfrwerthwr o'r canolbarth mai hon oedd y ffair fwyaf iddo ei gweld a oedd yn cynnwys llyfrau Cymraeg a Chymreig. Bu'r diwrnod yn brysur tan 4 o'r gloch, amser cau.

Buom ni'n ffodus o gael Mr. John Roberts Williams i agor y Ffair a hynny am 11 o'r gloch – wedi i'r llyfrbryfed gael ymladd dros y cyfrolau prin. Cafwyd gwrandawiad astud ar ei sylwadau cynnil a bachog. Llawer o ddiolch iddo am ei amser a'i gyfraniad hael.

Roedd gan y wasg ddiddordeb arbennig iawn mewn rhai cyfrolau cynnar a oedd ar werth yno megis *Y Bibl Cyssegr Lan* a gyhoeddwyd yn 1620, y *Dictionarium Duplex* gan John Davies Mallwyd 1632, *Tour in Wales* gan Thomas Pennant (1778); *Welsh Botanology* gan Hugh Davies 1813, a'r rhai prin fel Llyfrau Gwasg Gregynog; *The Mythology and Rites of the British Druids* gan A. Grimble (1913), *Medieval Carvings in North Wales* gan Colin Gresham a llawer mwy o gyfrolau diddorol tu hwnt. Manteisiodd rhai o'r aelodau ar y gwahoddiad i osod stondin, a mawr ddiolch iddynt. Hoffwn i ddiolch, hefyd, i'r llyfrwerthwyr hynny sydd yn hysbysebu yn gyson yn

*(parhad ar y dudalen ôl)*